

Delwyr arfau tanio: Cais i gofrestru neu am Dystysgrif Gofrestru newydd

Gallwch deipio eich ymatebion heblaw pan fo'ch llofnod yn ofynnol. Fel arall, mae'n rhaid i chi ddefnyddio inc du ac ysgrifennu mewn **LLYTHRENNAU MAWR** drwy gydol y ffurflen, heblaw am eich llofnod.

Noder: Mae'n rhaid cwblhau Rhan A lle mae cais yn cael ei wneud gan rywun sy'n dymuno cael ei gofrestru fel deliwr arfau tanio. **Mae'n rhaid i Rannau B a C** gael eu cwblhau lle mae cais yn cael ei wneud ar ran cwmni. Mewn pob achos **mae'n rhaid cwblhau rhannau D i G**. Bydd eich data personol yn cael eu prosesu gan yr heddlu yr ydych yn gwneud cais iddyn nhw yn unol â Rhan 3 Deddf Diogelu Data 2018 ac fel y nodir yn Hysbysiad Gwybodaeth Preifatrwydd yr heddlu.

RHAN A Manylion personol

1. Teitl (e.e. Mr, Mrs, Ms)	<input type="text"/>		
2. Cyfenw	<input type="text"/>		
3. Enw(au) cyntaf	<input type="text"/>		
4. Os ydych chi erioed wedi defnyddio enw heblaw am y rhai hynny a nodwyd yn 2 a 3 uchod, rhowch fanylion (gan gynnwys achosion o fenyw sydd wedi priodi, ei chyfenw cyn priodi)			
5. Dyddiad geni	<input type="text"/>		
6. Lleoliad geni	<input type="text"/>		
7. Cenedligrwydd	<input type="text"/>		
8. Swydd	<input type="text"/>		
9. Cyfeiriad cartref presennol	<input type="text"/>		
Cod post	<input type="text"/>	Rhif ffôn	<input type="text"/>
10. Rhif ffôn symudol	<input type="text"/>		
11. Cyfeiriad e-bost	<input type="text"/>		
12. Cyfeiriad cartref parhaol	<input type="text"/>		
Cod post	<input type="text"/>	Rhif ffôn	<input type="text"/>
13. Os ydych chi wedi byw unrhyw le heblaw am y cyfeiriadau a nodwyd yn 9 a 12 uchod yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, rhowch fanylion	<input type="text"/>		
Cod post	<input type="text"/>	Rhif ffôn	<input type="text"/>

RHAN A Manylion personol (parhad)

14. Ydych chi wedi'ch cofrestru fel deliwr arfau tanio ym Mhrydain Fawr o'r blaen? Ydw Nac ydw

Os **ydych**, nodwch ardal yr heddlu

Enw yr oeddech wedi'ch cofrestru oddi tano

Cyfnod cofrestru O I

15. Ydych chi erioed wedi cael cais i gymeradwyo neu adnewyddu tystysgrif arf tanio neu ddryll haels wedi'i wrthod neu wedi'i dynnu yn ôl? Ydw Nac ydw

Os **ydych**, rhowch fanylion

16. Ydych erioed wedi cael cais i gofrestru fel deliwr arfau tanio wedi'i wrthod, neu wedi cael eich tynnu o restr delwyr yr heddlu? Ydw Nac ydw

Os **ydych**, rhowch fanylion

17. Ydych chi erioed wedi cael eich euogfarnu o unrhyw drosedd? Ydw Nac ydw

Os **ydych**, rhowch fanylion

(**Noder:** Nid oes hawl gennych i guddio gwybodaeth am unrhyw drosedd. Mae hyn yn cynnwys euogfarnau mewn llefydd y tu allan i Brydain Fawr.)

RHAN B Manylion y cwmni

18. Enw llawn y cwmni

19. Rhif cofrestredig y cwmni

20. A yw'r cwmni erioed wedi masnachu o dan enw gwahanol? Ydy Nac ydy

Os **ydych**, nodwch enw llawn cwmni o'r fath

21. A yw'r cwmni wedi cael ei gofrestru fel deliwr arfau tanio mewn ardal heddlu arall, o dan yr enw hwn neu enw arall? Ydy Nac ydy

Os **ydych**, nodwch enw'r heddlu a rhif cofrestru'r dystysgrif

RHAN B Manylion y cwmni (parhad)

22. Prif natur y busnes y mae'r cwmni'n ymdrin ag ef

23. Enwau swyddogion y cwmni (gan gynnwys y Cadeirydd, Ysgrifennydd, Cyfarwyddwyr, Trysorydd ayb.)

24. A oes gan unrhyw un o'r swyddogion a enwir uchod dystysgrif cofrestru deliwr arfau tanio?

Oes

Nac oes

Os **oes**, nodwch enw llawn swyddogion o'r fath

25. A oes swyddog o'r cwmni sydd hefyd yn swyddog cwmni arall sydd â thystysgrif deliwr arfau tanio?

Oes

Nac oes

Os **oes** rhowch fanylion

26. A yw'r cwmni sy'n masnachu o dan yr enw hwn neu unrhyw enw arall erioed wedi cael ei dynnu o gofrestr delwyr arfau tanio'r heddlu?

Ydy

Nac ydy

Os **ydy**, rhowch fanylion

27. A yw llys erioed wedi gorchymyn unrhyw un o swyddogion y cwmni i beidio â chael eu cofrestru fel deliwr arfau tanio?

Ydy

Nac ydy

Os **ydy**, rhowch fanylion

28. A oes llys erioed wedi gorchymyn i'r cwmni beidio â chael ei gofrestru fel deliwr arfau tanio?

Oes

Nac oes

Os **oes**, rhowch fanylion

29. A yw'r cwmni erioed wedi cael ei euogfarnu o unrhyw drosedd?

Ydy

Nac ydy

Os **ydy**, rhowch fanylion

--

Rhan C Swyddog yn gwneud cais ar ran cwmni

30. Teitl (e.e. Mr, Mrs, Ms)

--

31. Enw llawn

--

32. Dyddiad geni

--

33. Swydd o fewn y cwmni

--

34. Cyfnod amser yn y swydd a nodwyd yng nghwestiwn 33

--

RHAN D Lle'r busnes

35 Manylion llefydd y busnes

Enw a chyfeiriad y busnes		Natur y busnes e.e. cynhyrchu nwyddau, cyfanwerthu, manwerthu, amser llawn neu'n rhan amser	Natur busnesau eraill a gynhelir yn y cyfeiriad hwn				
a)	<table border="1"> <tr> <td style="width: 150px; height: 40px;"></td> <td style="width: 150px;"></td> </tr> <tr> <td>Rhif ffôn</td> <td></td> </tr> </table>			Rhif ffôn			
Rhif ffôn							
b)	<table border="1"> <tr> <td style="width: 150px; height: 40px;"></td> <td style="width: 150px;"></td> </tr> <tr> <td>Rhif ffôn</td> <td></td> </tr> </table>			Rhif ffôn			
Rhif ffôn							
c)	<table border="1"> <tr> <td style="width: 150px; height: 40px;"></td> <td style="width: 150px;"></td> </tr> <tr> <td>Rhif ffôn</td> <td></td> </tr> </table>			Rhif ffôn			
Rhif ffôn							

36. Os yw hwn yn gais cychwynnol, rhowch fanylion profiadau blaenorol o ymdrin ag arfau tanio

--

37. Cynigion ar gyfer sicrhau meddiant diogel arfau tanio a/neu bwledi os yw'r cais yn cael ei gymeradwyo

--

RHAN E Manylion gweision

Pwysig: Darllenwch Nodiadau 1 i 3 cyn cwblhau Rhowch fanylion pob gwas yn y tabl isod sydd, yn rhinwedd adran 8 Deddf Arfau Tanio 1968, wedi'i awdurdodi, neu y bydd yn cael ei awdurdodi, i feddu ar, brynu neu dderbyn arfau tanio neu fwledi yn ystod cwrs arferol eich busnes. Os oes angen, parhewch ar dudalen ar wahân.

Cyfenw (gan gynnwys unrhyw enwau blaenorol)	Enw(au) cyntaf	Dyddiad geni	Cyfeiriad	Manylion y dystysgrif arf tanio neu ddryll haels (os yw'n berthnasol – gan gynnwys rhif y dystysgrif a'r heddlu sy'n ei darparu)

RHAN F Datganiad iechyd personol a meddygol

Os oes angen, parhewch ar dudalen ar wahân

Pwysig: Darllenwch nodiadau 4 i 15 cyn cwblhau.

Nid yw datganiad meddygol yn ofynnol os oes gan yr unigolyn sy'n gwneud y cais dystysgrif arf tanio a/neu dryll haels dilys ac nad yw eu hamgylchiadau meddygol wedi newid yn ystod dilysrwydd y dystysgrif. Lle bo hyn yn wir, darparwch fanylion y dystysgrif(au) isod yn unig.

Rhif dystysgrif	Dyddiad rhoi	Yr heddlu a gyhoeddodd y dystysgrif

38. Ydych chi erioed wedi derbyn diagnosis o unrhyw un o'r cyflyrau meddygol yn nodyn 6, Ydw Nac ydw
neu wedi cael eich trin ar eu cyfer?

Os **ydych**, rhowch fanylion

39. Manylion eich meddyg teulu neu'ch meddygfa

Enw'r meddyg teulu a/neu'r feddygfa

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

40. Manylion pob meddygfa flaenorol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf (gweler nodyn 15).

Parhewch ar dudalen ar wahân os oes angen.

Enw'r meddyg teulu a/neu'r feddygfa

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

41. A oes unrhyw gyfnodau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf pan nad ydych wedi cael eich cofrestru gan feddyg yn y DU neu wedi ymgynghori ag ymarferwyr meddygol heblaw am y rhai yn eich meddygfa?

 Oes (rhowch fanylion) Nac oes

Dyletswydd cyfrinachedd Byddaf yn trefnu i feddyg â chymwysterau addas*, sydd wedi'i gofrestru â'r GMC i ddarparu gwybodaeth ffeithiol i'r heddlu am unrhyw gyflyrau meddygol perthnasol sy'n ymwneud â fy addasrwydd i feddu ar arf tanio neu ddryll haels. Rwy'n deall y gall y meddyg rannu fy nghofnodion meddygol gyda'r heddlu i'w galluogi i wneud penderfyniad hollol gwybodus am fy nghais, neu am fy addasrwydd parhaus i feddu ar arf tanio neu ddryll haels tra bod y dystysgrif yn ddilys, ac rwy'n cydsynio i fy nghofnodion meddygol gael eu rhannu at ddibenion cyfrinachedd. Rwy'n deall y disgwylir i mi hysbysu'r heddlu os wyf yn cael diagnosis neu'n cael fy nhrin ar gyfer cyflwr meddygol a restrir yn nodyn 6 tra bod y dystysgrif yn ddilys.

*Meddyg gyda chofrestriad GMC llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) a thrwydded i ymarfer.

Enw'r ymgeisydd (LLYTHRENNAU
BRAS)

Llofnod

Dyddia
d

Nodyn am Ddiogelu Data Bydd data personol (gan gynnwys data personol sensitif) yn cael eu prosesu ar sail budd y cyhoedd, er mwyn galluogi'r heddlu i asesu addasrwydd ymgeisydd i gael tystysgrif arf tanio neu ddryll haels, neu i asesu addasrwydd parhaus yr ymgeisydd i feddu ar arf tanio neu ddryll haels tra bod y dystysgrif yn ddilys.

RHAN G Cais a datganiad

42. Trwy hyn, rwyf yn:

 ymgeisio

 cyflwyno'r cais hwn ar ran y cwmni a enwir yn Rhan B uchod

i brif swyddog yr heddlu ar gyfer: cofrestru fel deliwr arfau tanio

 tystysgrif gofrestru newydd

Noder: Mae'n drosedd i unrhyw berson wneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddihid mewn unrhyw ffordd yn benodol er mwyn cael cofrestriad iddo ei hun neu rywun arall fel deliwr arfau tanio neu nodi unrhyw fusnes ar gofrestr delwyr arfau tanio.

Rwy'n datgan bod y datganiadau uchod yn wir.

Llofnod arferol yr ymgeisydd

Dyddia
d

Nodiadau

Darllenwch y rhain CYN cwblhau'r ffurflen

Gweision

1. Mae'r eithriad yn adran 8(1) Deddf Arfau Tanio 1968 yn trafod meddiant, prynu a derbyn arfau tanio a bwledi yn ystod cwrs arferol busnes deliwr arfau tanio cofrestredig. Mae'n ehangu i ddelwyr arfau tanio cofrestredig a'u gweision.
2. Does dim diffiniad cyfreithiol o 'was', ond dylid nodi nad yw llythyr awdurdod yn gwneud rhywun yn 'was' at y dibenion hyn yn awtomatig. Byddai cyflogai deliwr sy'n gweithio ar gyfer busnes sy'n ymwneud ag arfau tanio'n 'was', ond nid yw'n wir y bydd unrhyw un y mae'r deliwr yn defnyddio eu gwasanaethau ar unrhyw adeg o

reidrwydd yn was e.e. gweithiwr allanol hunangyflogedig (megis ysgythrwr). Yn yr amgylchiadau hyn byddai'n ofynnol i'r gweithiwr allanol gofrestru fel deliwr arfau tanio.

- Gall meddiant, prynu a derbyn arfau tanio a bwledi gan was fod ar gyfer gwaith arferol busnes y deliwr yn unig fel y cyfeirir gan y deliwr.

Gwybodaeth feddygol

- Lle bo cais yn cael ei wneud ar ran cwmni (Rhan C) dylai'r swyddog sy'n gwneud y cais naill ai bod gydachyfrifoldeb, neu oruchwyliaeth uniongyrchol, am yr arfau tanio a ddelir gan y cwmni hwnnw.
- Os nad oes gennych dystysgrif arfau tanio neu ddryll haels dilys, neu os oes un gennych, ond bod eich amgylchiadau meddygol wedi newid, mae'n rhaidd i chi ddatgan unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol yr ydych wedi cael diagnosis neu wedi'ch trin ar eu cyfer yn y gorffennol, oherwydd gall hyn effeithio ar eich gallu i feddu ar arfau tanio, drylliau haels neu arfau aer yn ddiogel. Rhestrir y cyflyrau meddygol perthnasol y mae'n rhaid eu datgan yn nodyn 6. Mae Adran 34 Deddf Arfau Tanio 1968 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi er mwyn cofrestru unigolyn fel deliwr arfau tanio, mae'n rhaid i brif swyddog yr heddlu fod yn fodlon y gall ymgeisydd barhau â busnes fel deliwr arfau tanio "heb berygl i ddiogelwch y cyhoedd neu i'r heddwch". Ffitrwydd meddygol yw un o'r ffactorau y mae'n rhaid i'r heddlu eu hystyried wrth asesu hyn.
- Mae cyflyrau meddygol perthnasol y mae'n rhaid eu datgan yn cynnwys:
 - Ymateb Acíwt i Straen neu ymateb aciwt i'r straen a achoswyd gan drawma gan gynnwys anhwylder straen ôl-drawmatig
 - Meddyliau am hunanladdiad neu hunan-niweidio neu niweidio pobl eraill
 - Iselder neu orbryder
 - Dementia
 - Mania, anhwylder deubegwn neu salwch seicotig
 - Anhwylder personoliaeth
 - Cyflwr niwrolegol: er enghraifft, Sglerosis Ymledol, Clefydau Parkinson's neu Huntington's, neu epilepsi
 - Camdrin alcohol neu gyffuriau
 - Unrhyw gyflwr meddyliol neu gorfforol arall, cyfuniad o gyflyrau, yr ydych chi'n credu y gallent fod yn berthnasol.
- Eich cyfrifoldeb chi yw trefnu i feddyg â chymwysterau addas, sydd wedi'i gofrestru â'r GMC* (gan gynnwys lle mae meddyg yn darparu'r gwasanaeth hwn ar gyfer cwmni preifat) ddarparu gwybodaeth feddygol i'r heddlu ynghylch eich addasrwydd i feddu ar arfau tanio a/neu ddryll haels. Defnyddiwch lythyr a phrofforma gwybodaeth feddygol y meddyg sy'n rhan o'r ddogfen hon, a'u datod a'u trosglwyddo i'r meddyg eu cwblhau. Disgwylir i chi dalu'r cost os oes ffi'n cael ei chodi am hyn. Pan fo'r wybodaeth feddygol yn cael ei darparu i'r heddlu gan feddyg o gwmni preifat, mae'n rhaid i'r meddyg dderbyn gwybodaeth feddygol yr ymgeisydd yn uniongyrchol o feddygfa'r meddyg teulu ac nid trwy'r ymgeisydd.
- O ran diogelu data, dylid nodi y bydd y wybodaeth feddygol yn cael ei phrosesu ar sail budd y cyhoedd at y pwrpas plismona cyfreithiol o asesu addasrwydd rhywun i dderbyn tystysgrif arfau tanio neu ddryll haels.
- Mae ymarferwyr meddygol wedi gofyn ar wahân bod cydsyniad ymgeisydd yn cael ei ddarparu er mwyn i ymarferwyr meddygol fod yn fodlon eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau o dan eu dyletswydd cyfrinachedd mewn perthynas â'u cleifion. Mae'r ffurflen gais yn gofyn am gydsyniad yr ymgeisydd i ryddhau'r wybodaeth am y rheswm hwnnw.
- Pan fo'r meddyg yn nodi bod materion meddygol perthnasol ac mae'r heddlu'n gofyn am wybodaeth feddygol bellach i ystyried y cais, dylech gael adroddiad am y materion meddygol hyn. Disgwylir i chi dalu cost y ffi os yw'n cael ei chodi. Yn dilyn hyn, os yw'r heddlu yn gofyn i adroddiad arall gael ei ddarparu, byddant yn talu cost y ffi.
- Bydd yr heddlu'n gofyn i'ch meddyg teulu osod nodyn atgoffa wedi'i amgodio ar eich cofnod claf i nodi eich bod wedi cael eich cofrestru fel deliwr arfau tanio. Gofynnir i'r meddyg teulu hysbysu'r heddlu os, yn dilyn eich cofrestrriad fel deliwr arfau tanio, eich bod yn cael diagnosis neu'n cael eich trin am gyflwr meddygol perthnasol (a restrir yn nodyn 6), neu os oes gan y meddyg bryderon eraill am eich meddiant diogel o arfau tanio, drylliau haels neu arfau aer. Yn dilyn cyswllt gan eich meddyg teulu, mae'n bosibl y bydd angen cael adroddiad meddygol i gynorthwyo wrth asesu eich addasrwydd parhaus i feddu ar arfau tanio, drylliau haels neu arfau aer. Bydd yr heddlu'n talu os oes adroddiad meddygol yn ofynnol.

12. Yn dilyn eich cofrestrriad fel deliwr arfau tanio, noder bod y datganiad yr ydych wedi'i lofnodi'n cydsynio i rannu gwybodaeth rhwng eich meddyg a'r heddlu'n berthnasol yn ystod proses y cais ac yn ystod dilysrwydd eich cofrestrriad.
13. Disgwylir i chi hysbysu'r heddlu os, yn dilyn cofrestrid fel deliwr, ydych yn cael diagnosis neu'n cael eich trin am gyflwr meddygol perthnasol tra bod eich cofrestrriad fel deliwr arfau tanio'n ddilys.
14. Dylech hysbysu'r heddlu os ydych chi'n newid eich meddygfa a rhoi manylion y feddygfa newydd.
15. Gofynnir i chi roi manylion meddygfeydd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf ac a ydych wedi ymgynghori ag ymarferwyr meddygol eraill heblaw am y rhai yn eich meddygfa fel bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael i'r heddlu i gynorthwyo â'u hasesiad addasrwydd i feddu ar arfau tanio, drylliau haels neu arfau aer.

*Meddyg gyda chofrestrriad GMC llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) a thrwydded i ymarfer.

At ddefnydd swyddogol yn unig			
Ffi a dalwyd	<input type="text"/>	Safle / Rhif	<input type="text"/>
Rhif Derbynneb	<input type="text"/>	Llofnod	<input type="text"/>
Dyddi	<input type="text"/>		
Gorsaf	<input type="text"/>		

Cedwir y dudalen hon yn wag i alluogi
llythyr a phrofforma gwybodaeth
feddygol y meddyg i gael eu datod o
weddill y cais.

Enw'r Meddyg: _____
Cyfeiriad _____

Cod Post: _____

Enw'r Ymgeisydd: _____
Dyddiad Geni: _____
Cyfeiriad: _____

Cod Post: _____
Rhif Ffôn: _____
Cyfeiriad e-bost: _____

Annwyl Feddyg,

Rwy'n gwneud cais am dystysgrif arfau tanio/tystysgrif dryll haels/i gael fy nghofrestru fel deilwr arfau tanio.

Ceisiadau arfau tanio a ffitrwydd meddygol.

Mae'r heddlu'n asesu ceisiadau arfau tanio ac yn gofyn i bob ymgeisydd ddarparu gwybodaeth ffeithiol gan feddyg yn cadarnhau a ydynt erioed wedi cael diagnosis o un o'r cyflyrau canlynol, neu wedi cael eu trin ar eu cyfer, sy'n gallu cael effaith ar addasrwydd unigolyn i dderbyn dystysgrif arf tanio:

- Ymateb Aciwt i Straen neu ymateb aciwt i'r straen a achoswyd gan drawma, gan gynnwys anhwylder straen ôl-drawmatig
- Meddyliau am hunanladdiad neu hunan-niweidio neu niweidio pobl eraill
- Iselder neu orbryder
- Dementia
- Mania, anhwylder deubegwn neu salwch seicotig, neu anhwylder personoliaeth
- Cyflwr niwrolegol: er enghraifft, Sglerosis Ymledol, Clefydau Parkinson's neu Huntington's, neu epilepsi
- Camdrin alcohol neu gyffuriau
- Unrhyw gyflwr meddyliol neu gorfforol, neu gyfuniad o gyflyrau, yr ydych yn credu y gallent fod yn berthnasol.

Noder nad yw'r heddlu'n ceisio eich barn am fy addasrwydd i gael dystysgrif arfau tanio, oherwydd cyfrifoldeb yr heddlu yw'r penderfyniad hwn. Dim ond ymateb ffeithiol sydd ei angen arnynt, gan feddyg â chymwysterau addas sydd wedi'i gofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), yn seiliedig ar fy nghofnod meddygol.

*Meddyg gyda chofrestriad GMC llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) a thrwydded i ymarfer.

Gwybodaeth sy'n ofynnol gan feddyg sydd wedi'i gofrestru â'r GMC

Os oes hanes o unrhyw un o'r cyflyrau meddygol perthnasol a restrir, a all yr ymateb gynnwys y canlynol:

1. Enw'r cyflwr meddygol
2. Hyd y cyflwr meddygol
3. Meddyginiaeth sydd wedi cael ei roi drwy bresgripsiwn

Noder dim ond gwybodaeth am unrhyw gyflwr/gyflyrau meddygol perthnasol y dylid ei darparu. Nid yw argraffiad o fy hanes meddygol yn dderbyniol ar gyfer hyn felly.

Ffioedd y meddyg

Os oes ffi i'w thalu, anfonwch anfoneb ymlaen i fy nghyfeiriad cartref os gwelwch yn dda. Rwy'n deall na fydd y wybodaeth yn cael ei darparu tan bod y ffi, os oes ffi, wedi cael ei thalu.

Sut i ymateb

Dylid anfon eich ymateb i adran drwyddedu arfau tanio'r heddlu lleol drwy e-bost diogel y GIG, neu drwy'r post. Fel arall, cysylltwch â mi fel y gallaf i ei gasglu. Os yw'r ymateb yn cael ei roi i mi i'w roi i'r heddlu, mae'n bosibl y byddant yn cysylltu â chi i gadarnhau'r manylion.

Pan fo'r wybodaeth feddygol yn cael ei darparu i'r heddlu gan feddyg o gwmni preifat, mae'n rhaid i'r meddyg dderbyn gwybodaeth feddygol yr ymgeisydd yn uniongyrchol o swyddfa'r meddyg teulu ac nid drwy'r ymgeisydd.

Unwaith y mae'r heddlu wedi ystyried eich ymateb, mae'n bosibl y byddant am weld adroddiad meddygol am unrhyw gyflyrau meddygol yr wyf wedi'u profi fel y gallant ystyried fy nghais ymhellach. Byddaf yn atebol i'r ffioedd meddygol i ddarparu adroddiad.

Marciwr arfau tanio

Rhowch faner 'cais arfau tanio wedi'i wneud' ar gofnod y claf. Os wyf yn derbyn tystysgrif arf tanio, bydd yr heddlu'n cysylltu â chi i ofyn i chi roi baner 'yn meddu ar dystysgrif arfau tanio' ar fy nghofnod claf. Mae hyn er mwyn i'r heddlu allu cael eu rhybuddio os wyf yn dechrau profi unrhyw un o'r cyflyrau meddygol perthnasol a restrir tra bod fy nhystysgrif arf tanio'n ddilys. Yna bydd yr heddlu'n adolygu fy addasrwydd i barhau fel deilydd tystysgrif arf tanio

Gwybodaeth bellach

Os oes angen gwybodaeth bellach arnoch, ffoniwch neu anfonwch e-bost at adran drwyddedu arfau tanio'r heddlu lleol.

Diolch am eich cymorth.

Yr eiddoch yn gywir,

_____ Llofnod yr ymgeisydd

CYDSYNIAD

Rwy'n deall y gall meddyg rannu data personol sensitif gyda'r heddlu o ran fy iechyd corfforol neu feddyliol i alluogi'r heddlu i wneud penderfyniad am fy nghais, neu am fy addasrwydd parhaus i feddu ar dystysgrif arf tanio/cael fy nghofrestru fel deliwr arfau tanio, a thrwy hyn, rwy'n cydsynio i fy nata personol gael ei brosesu.

Rwy'n deall y bydd yr heddlu'r prosesu'r wybodaeth feddygol a roddir ar sail budd y cyhoedd at y diben plismona cyfreithiol o asesu addasrwydd rhywun i gael tystysgrif arf tanio neu ddryll.

Rwy'n deall bod ymarferwyr meddygol wedi gofyn bod fy nghydsyniad yn cael ei roi o ran eu dyletswydd cyfrinachedd i alluogi meddygon i ddarparu gwybodaeth i'r heddlu, a fydd yna'n prosesu'r data fel y disgrifir uchod.

Rwy'n deall y gall yr heddlu gysylltu â fy meddyg neu arbenigwr meddygol i gael gwybodaeth ffeithiol am unrhyw hanes meddygol sy'n berthnasol i fy addasrwydd i feddu ar arf tanio neu ddryll. Mae hyn yn berthnasol hyd oes y dystysgrif.

Trwyddedu Arfau Tanio

Profforma Gwybodaeth Feddygol

Ni all y ffurflen hon gael ei diwygio ar ôl iddi gael ei chwblhau gan y meddyg. Mae Deddf Arfau Tanio 1968 yn nodi ei bod hi'n drosedd i wneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid er mwyn cael tystysgrif wedi'i chymeradwyo neu ei hadnewyddu, gyda chosb uchaf o chwe mis yn y carchar a/neu dirwy.

*Meddyg gyda chofrestriad GMC llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) a thrwydded i ymarfer.

MANYLION Y CLAF

Teitl: _____ Enw Llawn: _____
Cyfeiriad Cartref _____

Dyddiad Geni: _____
Cyfeiriad e-bost: _____

GWYBODAETH FEDDYGOL: I'w gwblhau gan feddyg*

*Meddyg gyda chofrestriad GMC llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) a thrwydded i ymarfer.

Gwiriwch gofnod meddygol y claf am unrhyw hanes o'r canlynol a thiciwch y rhai hynny sy'n berthnasol. Lle bo unrhyw rai'n berthnasol, ychwanegwch fanylion pellach ar y dudalen nesaf sy'n gallu cael eu cyfyngu i ddatganiad ffeithiol ac nid barn.

Ydych chi wedi cael mynediad at gofnod meddygol llawn y claf i gwblhau'r adroddiad hwn? Ydw Nac ydw

A yw'r cofnod meddygol yn barhaus? Ydy Nac y

Ydych chi wedi rhoi baner 'cais arf tanio wedi'i wneud' ar gofnod y claf? Ydw Nac w

DYDDIAD DECHRAU'R COFNODION: _____ DYDDIAD YR YMGYNGHORIAD DIWETHAF: _____

Ymateb Acíwt i Straen neu ymateb aciwt i'r straen a achoswyd gan drawma, gan gynnwys anhwylder straen wedi trawma	Ydw <input type="checkbox"/> c ydw <input type="checkbox"/>	Anhwylder personoliaeth	Ydw <input type="checkbox"/> c ydw <input type="checkbox"/>
Meddyliau am hunanladdiad neu hunan-niweidio neu niweidio eraill	Ydw <input type="checkbox"/> c ydw <input type="checkbox"/>	Cyflwr niwrolegol: er enghraifft, Sglerosis Ymledol, Clefydau Parkinson's neu Huntington's, neu epilepsi	Ydw <input type="checkbox"/> c ydw <input type="checkbox"/>
Iselder neu orbryder	Ydw <input type="checkbox"/> c ydw <input type="checkbox"/>	Camdrin alcohol neu gyffuriau	Ydw <input type="checkbox"/> c ydw <input type="checkbox"/>

Dementia	Ydw <input type="checkbox"/> c ydw <input type="checkbox"/>	Unrhyw gyflwr meddyliol neu gorfforol arall, neu gyfuniad o gyflyrau, a all effeithio ar feddiant diogel arfau tanio neu ddrylliau	Ydw <input type="checkbox"/> c ydw <input type="checkbox"/>
Mania, anhwylder deubegwn neu salwch seicotig	Ydw <input type="checkbox"/> c ydw <input type="checkbox"/>		

LLOFNODWCH AR Y DUDALEN NESAF. RHOWCH RAGOR O WYBODAETH OS YDYCH WEDI TICIO YDW I UNRHYW UN O'R CWESTIYNAU UCHOD

CYFRINACHOL – MEDDYGOL (pan fydd wedi'i gwblhau)

CYFRINACHOL – MEDDYGOL (pan fydd wedi'i gwblhau)

Enw'r Claf:

Dyddiad geni:

Beth yw'r cyflwr meddygol neu'r cyflyrau meddygol?

Am faint o amser y mae'r claf wedi cael ei drin am y cyflwr hwn?

A yw'r claf o hyd yn cael ei drin ar gyfer hwn?

Manylion y meddyginiaethau sydd wedi cael eu rhoi ar bresgripsiwn

A oes unrhyw achosion o hyn wedi digwydd o'r blaen?

Beth yw cyflwr presennol y claf?

A oes gennych chi unrhyw wybodaeth arall yr ydych chi'n credu y gallai fod yn berthnasol i'r heddlu o ran penderfynu a yw'r claf yn ddiogel i feddu ar arfau tanio?

Enw'r meddyg:

Stamp y feddygfa:

Llofnod y meddyg

Rhif GMC:

Dyddiad:
